# Mwd

Gaeaf 2012

RSPB

## Geshia be?!

**Rwyt ti, dy ffrindiau a dy deulu ar fin cael mwy o sbort a sbri ar y warchodfa nag erioed achos mae RSPB Conwy yn cael mêcofyr!**

Mae RSPB Conwy yn le arbennig iawn. Mae'r holl fywyd gwyllt sydd yma'n anhygoel. Medri weld adar o bob math megis cornchwiglod a chrëyrod glas, blodau a phlanhigion prin, ceffylau gwyllt a charlymod del.

Medri wneud llawer o bethau yma hefyd, pethau fel adeiladu gwesty pryfaid, rhoi cynnig ar rwydo pwll i weld madfallod y dŵr, chwarae Bingo Adar neu wneud cacen flasus i'r adar bach.

Ond... mae ar fin gwella eto!!! Hoffet ti glywed beth yw ein cynlluniau? Gallwn addo iti...mae'n hynod o gyffrous!

## Tegi

### Weles di be' sydd wedi ymddangos allan o'r mwd?



Lluniau gan: Laura Kudelska

Turiodd Gwyn, gyrrwr y digar bach, sy'n dod o'r Bala, drwy'r clawdd a gwneud tri phentwr o bridd. Roeddynt yn edrych braidd yn debyg i fwystfil Loch Ness! A'r funud nesa', fe anwyd Tegi! Mae wedi'i enwi ar ôl bwystfil Llyn Bala. DIOLCH YN FAWR IAWN i Gwyn am greu draig Gymreig a hynny drwy ddefnyddio dim ond digar bach!

## Ond...shhhh!

Mae Tegi'n cysgu hyd nes bydd ei gôt o wair wedi tyfu. Yna bydd plant yn medru chwarae arno!


Cymunedau a Natur
Communities and Nature

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

ERDF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

Mae Cysylltiadau Conwy yn fenter a ariennir yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Llywodraeth Cymru, ac mae'n rhan o brosiect strategol Cymunedau a Natur Cyngor Cefn Gwlad Cymru.



# Golygfa a hanner!

Wyt ti wedi sylwi bod twll mawr nesa' i'r Siop Goffi? O'r fan yma y daeth Tegi. A dyma le fydd yr wylfa newydd yn cael ei adeiladu - lle gwych ar gyfer gwylio bywyd gwyllt. Mae'r adeilad yma'n un arbennig iawn - bydd yn cael ei adeiladu allan o fêls gwellt, sy'n hynod gyfeillgar i'r amgylchedd.

# Beth arall sy'n mynd ymlaen?

Rydym ni'n adeiladu lle chwarae newydd! Dyma yw'r rhan fwyaf cyffrous yr holl broject! Hefyd, mi fydd gennyt ti le picnic newydd, cynefin blodau gwyllt a chreaduriaid bach...a thwnnel...a ffrâm ddringo! Dyma le fydd yn arbennig i ti, lle cei di ddarganfod bywyd gwyllt a chael llawer iawn o hwyl.

## Tyrd inni gael gweld be' sydd gennym ni hyd yma:


- Tegi: ai draig ydi o, neu ai deinasor...neu ai dragasor?!
- Adeilad bêls gwellt arbennig i gael gwylio adar ar draws y lagŵn
- Lle picnic
- Lle chwarae gyda thwnnel a ffrâm ddringo

## Ond arhosa' funud, mae 'na fwy!



- Mae llwybr newydd wedi'i adeiladu yn y maes parcio fel bo' pawb yn teimlo'n ddiogel yn cyrraedd y warchodfa.
- Bydd paneli solar yn cael eu gosod ar ben to'r Siop Goffi, fel bo' dŵr y warchodfa'n cael ei gynhesu gan yr haul. Mae hyn yn grêt ar gyfer yr amgylchedd.

Bydd y lle chwarae yn cael ei agor yng ngwanwyn 2014. Oes, mae llawer o amser tan hynny! Faint fydd d'oed di bryd hynny?! Ond, bydd rhannau eraill yn agor yng nghynt, felly beth am ddod i ymweld â ni yn ddigon aml fel dy fod yn cael cadw llygad ar y gwaith adeiladu a sylwi ar yr holl waith caled yn dod at ei gilydd.



Llungan: Alan Gray



# Diolch am ein helpu gyda'r syniadau

Nid dim ond staff yr RSPB sydd wedi meddwl am y syniadau gwych hyn. Mae plant o'r un oed â thi, gan gynnwys y grŵp Archilwyr Bywyd Gwyllt, wedi bod yn ein helpu i feddwl am syniadau ffantastig. Rydym ni'n awyddus i'r lle chwarae newydd fod yn union beth rydych chi ei eisiau ac yn rhywle ble cewch chi lawer iawn o hwyl.

Uchod mae'r grŵp Archwilwyr Bywyd Gwyllt yn meddwl am syniadau. Diolch yn fawr.

# Golau...Camera... ATI!!



## Oes gennych chi awydd bod yn gyflwynydd?

Wyt ti wedi clywed am Iolo Williams? Hwn yw dy gyfle di i fod o flaen y camera, yn union fel Iolo. Rydym ni'n chwilio am gyflwynydd bywiog, sy'n hoff iawn o fywyd gwyllt, i weithio gyda ni ar ffilm yn 2013 am y môr-ofyr yma. Os wyt ti'n meddwl fod gen ti'r hyn sydd ei angen ar gyfer bod yn gyflwynydd, ffonia ni ar 01492 584091. Gofala ofyn am ganiatâd gan dy rieni yn gyntaf!

# Mwynha ein gêm

# Geiri-adar



A fedri di ddod o hyd i'r rhain?

- Titw tomos
- Aderyn y to
- Jibinc
- Robin goch
- Drudwy
- Pioden
- Colomen
- Mwyalchen

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| R | O | B | I | N | G | O | C | H | M |
| A | T | J | F | B | C | A | S | C | D |
| F | G | I | H | J | B | L | E | O | R |
| B | Y | B | T | S | S | M | I | L | O |
| B | W | I | C | W | A | N | P | O | L |
| E | D | N | S | C | T | R | G | M | D |
| T | U | C | W | P | I | O | D | E | N |
| H | R | J | A | C | O | B | M | N | T |
| A | D | E | R | Y | N | Y | T | O | I |
| M | W | Y | A | L | C | H | E | N | S |

Am fwy o wybodaeth a gweithgareddau:
www.rspb.org.uk/youth

Cartŵn gan Andy Hamilton ac Anthony Rule.

# Yn y cyfamser... yn RSPB Conwy

## Nadolig Naturiol

**Sadwrn 1 Rhagfyr, Sul 2 Rhagfyr**
**9.30yb i 5.00yh**
**Pris: Am ddim!**

Gwylia RSPB yn creu lle gogoneddus o fywyd gwyllt gaeafol! Gelli fynd ar hyd llwybr Santa, ac yna brynu anrhegion o'r siop cyn mwynhau mwg o siocled poeth yn y Siop Goffi.

Perffaith!

## Coelcerth y 'Dolig

**Sul 16 Rhagfyr, 2.00yb i 3.30yh**
**Pris: Archwilwyr Bywyd Gwyllt £4, £6 i rai heb fod yn aelodau. Mae'n rhaid bwcio ymlaen llaw. Am fanylion talu gwelwch,**
www.rspb.org.uk/conwy

Helpwch ni gasglu coed tân, ac adeiladu coelcerth i rostio Marshmallows! Darganfyddwch sut i wneud "s'more"!

Addas i 4 – 12 oed.

## Arhoswch gyda ni

www.rspb.org.uk/conwy
conwy@rspb.org.uk – 01492 584091
Darganfyddwch ni ar Facebook
Dilynnwch ni ar Twitter
@rspbconwy #conwyconnections

Hoffai RSPB Cymru ddiolch i'r rheini sydd wedi cyfrannu tuag at gefnogi gwarchodfa natur ac adnoddau ymwelwyr RSPB Conwy, gan gynnwys Ystad y Goron, Ymddiriedolaeth Cemlyn Jones, Amgylchedd Cymru, Tesco, Cyngor Tref Conwy a Grŵp Cefnogi RSPB Conwy.

Mae'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) yn elusen gofrestredig: Lloegr a Chymru rhif 207076, yr Alban rhif SC037654